**Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg**
**Strategic Director of Social Care and Education Services**
*Jenny Williams*

**Pennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg)**
**Head of Education Services (Chief Education Officer)**
*Dr Lowri Brown*

**Cyfeiriad Post / Postal Address:** Adran Addysg Blwch Post 1, CONWY, LL30 9GN / Education Department**,** PO Box 1, CONWY, LL30 9GN

☎ **01492 575595**

ceisiadaucludiant@conwy.gov.uk

Rhieni / Gofalwyr disgyblion blwyddyn 11

Ein Cyf / Our Ref: H2ST23
Eich Cyf / Your Ref:
Dyddiad / Date:26/09/2024

Annwyl Riant / Ofalwr

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bod Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 23 Gorffennaf 2024 wedi rhoi cymeradwyaeth i newid rhai o'r meini prawf dewisol ym mholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Conwy, ac y daw'r newidiadau hynny i rym ym mis Medi 2025. Efallai y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar eich plentyn os dymunwch wneud cais am gludiant o'r cartref i'r ysgol i fynd i'r chweched dosbarth neu goleg ym mis Medi 2025.

O 1 Medi 2025 ymlaen, darperir cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr dros 16, a hynny i'r sefydliad addysgol agosaf (ysgol uwchradd / ysgol Gymraeg y dalgylch neu'r un agosaf, neu'r coleg addysg bellach agosaf) os yw'n dair milltir o'r cartref neu'n bellach. Efallai y bydd disgwyl i ddysgwyr gyrraedd y man codi agosaf eu hunain. Er hynny, ni ddisgwylir i ddysgwyr 16 oed a hŷn ganfod eu ffordd eu hunain i'r man codi agosaf os yw'n bellach na thair milltir. Ni ddarperir cludiant ar gyfer cyrsiau preswyl.

Mae'n rhaid gwneud cais am gludiant ar ôl 16 drwy fynd i wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Cludiant am ddim i ysgol / coleg - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - a llenwi'r ffurflen erbyn 1 Mai 2025.

Fe gewch chi ychwaneg o wybodaeth ar y wefan.

Yn gywir,

Lv. Brown

**Dr Lowri Vaughan Brown**
**Prif Swyddog Addysg/Chief Education Officer**
**Pennaeth Gwasanaethau Addysg/ Head of Education Services**

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi. Gwnewch yn siŵr fod unrhyw ohebiaeth wedi'i labelu'n glir gydag enw, teitl ac/ neu enw llawn yr Adran fel y nodir uchod.

We welcome correspondence in Welsh. We will respond to any correspondence in Welsh which will not lead to a delay. Please ensure any correspondence is clearly labelled with the name, title and/or full name of the department as detailed above.